diogelwch dŵr Cymru
water safety Wales

# Adolygiad Ganol Strategaeth:

## Strategaeth Atal Boddi Cymru 2020-2026



diogelwch dŵr Cymru
water safety Wales

# Contents


| | |
|---|---|
| Rhageiriau | 1 |
| Cefndir | 3 |
| Cyd-destun | 4 |
| Cynnydd | 5 |
| Cynnydd tuag at y nodau targed | 9 |
| Galwad i weithredu a’r camau nesaf | 15 |
| Atodiadau | 17 |


Awgrym cyfeirnodi: Diogelwch Dŵr Cymru (2024) Adolygiad Ganol Strategaeth: Strategaeth Atal Boddi Cymru 2020-2026

# Rhageiriau

**Huw Irranca-Davies, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

Wrth inni fyfyrio ar y cynnydd sydd wedi'i wneud ers lansio Strategaeth Atal Boddi Cymru (2020-2026), rhaid inni hefyd wynebu'r heriau sydd o'n blaen.

Yn anffodus, mae gormod o ddigwyddiadau a marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr yn dal i ddigwydd yng Nghymru. Dyna pam mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Ddiogelwch Dŵr Cymru a'u cenhadaeth o leihau digwyddiadau boddi mor hanfodol.

Ers cyflwyno Strategaeth Atal Boddi Cymru, mae yna gydweithio anhygoel wedi bod gan y rhanddeiliaid allweddol a phartneriaeth newydd rhwng Diogelwch Dŵr Cymru a'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau, gan gynyddu ymwybyddiaeth, gwella addysg diogelwch dŵr, a meithrin diwylliant cryf o atal digwyddiadau.

Wrth edrych ymlaen, rhaid inni i gyd aros yn hyblyg ac yn barod i ymateb i'r amgylchiadau newidiol sy'n effeithio ar ddiogelwch dŵr. Mae hyn yn golygu addasu at heriau newydd, symud arferion y cyhoedd, a chofleidio dulliau arloesol o gadw cymunedau'n ddiogel o amgylch dŵr. Cyfrifoldeb sy'n cael ei rannu yw hwn, ac mae'n hanfodol bod yr aelodau'n dal i gydweithio i atal trychinebau yn y dyfodol.

Rwy'n ddiolchgar i bawb sy'n rhan o'r ymdrech gydweithredol yma i hybu diogelwch dŵr yng Nghymru. Trwy godi ymwybyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd ar ddiogelwch dŵr, gallwn rymuso unigolion i fwynhau ein hamgylchedd dŵr hardd yn ddiogel.

## Grp Teuluoedd Diogelwch Dŵr Cymru

Mae Grŵp Teuluoedd Diogelwch Dŵr Cymru yn grŵp o bobl sydd wedi colli rhywun annwyl drwy foddi yng Nghymru. Rydyn ni wedi ymrwymo i atal boddi a sicrhau na fydd yr un teulu arall yn profi'n colled ni. Er bod cynnydd wedi'i wneud, mae'r adolygiad yma o'r Strategaeth yn nodi bod llawer mwy i'w wneud o hyd. Hoffem ddiolch i bawb sy'n ymwneud ag atal boddi am eu hymdrechion ac rydyn ni'n dal wedi ymrwymo i greu Cymru fwy diogel.

**Gyda'n gilydd, gallwn anrhydeddu'n hanwyliaid drwy wneud ein dyfroedd yn fwy diogel i bawb.**

**Yn anffodus, mae gormod o bobl yn boddi yng Nghymru. Mae'r Gronfa Ddata Digwyddiadau Dŵr (WAID) yn dangos bod yna gyfanswm o 55 o farwolaethau yn gysylltiedig â dŵr yng Nghymru ar gyfer 2023, sef cynnydd o saith o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a'r cynnydd cyffredinol cyntaf yng Nghymru mewn pum mlynedd.**

Mae'r ffigwr o 55 yn uwch na'r ffigwr sylfaenol o 45 yn Strategaeth Atal Boddi Cymru 2020-2026, felly er gwaethaf ein hymdrechion, mae boddi yng Nghymru bellach yn fwy cyffredin nag yn 2020 pan gyhoeddwyd y Strategaeth.

**Mae boddi'n dal yn fater sy'n cael ei danbrisio yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig gyfan. Mae nifer y marwolaethau drwy foddi bob blwyddyn yn llawer uwch na nifer y marwolaethau mewn tanau neu mewn digwyddiadau beicio, er enghraifft, ond nid yw hyn bob amser yn cael ei adlewyrchu yn ymwybyddiaeth y cyhoedd nac o ran faint o adnoddau a roddir i weithgareddau atal boddi.**

A minnau'n Gadeirydd Diogelwch Dŵr Cymru, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ein hymdrechion i leihau boddi ers cyhoeddi'r Strategaeth ym mis Rhagfyr 2020. Fel y nodir yn y ddogfen yma, cafwyd cydweithio ac arloesi aruthrol, ac mae cymaint wedi'i gyflawni. Ond mae gennyn ni ragor i'w wneud, ac mae'n rhaid i ni ddyblu'n hymdrechion a bod yn ddigon hyblyg i addasu at dirwedd gymdeithasol, ymddygiadol ac amgylcheddol sy'n newid yn barhaus.

**Chris Cousens, Cadeirydd, Diogelwch Dŵr Cymru**



Credit Wales Online

# Cefndir

**Mae Diogelwch Dŵr Cymru (WSW) yn bartneriaeth o sefydliadau ac unigolion sy'n credu bod modd atal pob marwolaeth sy'n gysylltiedig â dŵr, beth bynnag fo'r achos neu'r amgylchiadau. Dyhead WSW yw gweld Cymru sydd heb farwolaethau sy'n gysylltiedig â boddi.**

Mae moroedd a dyfroedd agored mewndirol Cymru – sy'n cael eu mwynhau gan filiynau bob blwyddyn – ymysg y gorau yn y byd, ac mae WSW am helpu pobl i'w mwynhau'n ddiogel a sicrhau eu bod yn cyrraedd adref at eu hanwyliaid ar ôl diwrnod allan, boed ar y dŵr, yn y dŵr neu'n agos at y dŵr.

Mae gan Strategaeth Atal Boddi Cymru saith nod allweddol:

- Gwella data a gwybodaeth digwyddiadau dŵr yng Nghymru
- Hyrwyddo a datblygu dysgu nofio ac addysg diogelwch dŵr
- Hyrwyddo a chefnogi datblygiad cynlluniau diogelwch dŵr
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o risgiau sy'n ymwneud â dŵr a sicrhau bod negeseuon cyson yn cyrraedd y bobl gywir ar yr adeg gywir
- Hyrwyddo cyfranogaeth ddiogel mewn gweithgareddau dŵr ar draws Cymru
- Cyfrannu at ostyngiad mewn hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â dŵr
- Gweithio â theuluoedd a effeithiwyd gan ddigwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr

Mae'r Adolygiad Ganol Strategaeth yma yn rhoi dadansoddiad cyfredol o'r saith nod allweddol a osodwyd yn y Strategaeth ers ei lansio.

# Cyd-destun

## Cefnogaeth gynyddol

Yn rhyngwladol, cafwyd cefnogaeth gref i ddiogelwch dŵr ac atal boddi, yn sgil cadarnhad Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig fod boddi yn fater iechyd cyhoeddus a all gael ei atal. Mae'r Cynulliad Cyffredinol yn gofyn i'r aelod-wladwriaethau *"benodi canolbwynt cenedlaethol ar gyfer atal boddi"* a *"datblygu cynllun atal boddi cenedlaethol"*.[i] Mae WSW a'r Strategaeth, yn y drefn honno, yn ateb y ceisiadau yma.

Yng Nghymru, mae cefnogaeth wleidyddol i ddiogelwch dŵr ac atal boddi wedi datblygu'n arwyddocaol, yn bennaf mewn ymateb i farwolaeth drasig Mark Allen. Gwnaeth Pwyllgor Deisebau'r Senedd chwe argymhelliad fel rhan o Gyfraith Mark Allen, a gyhoeddwyd yn 2022.[ii] Roedd hyn yn cynnwys penodi Gweinidog (Ysgrifennydd Cabinet erbyn hyn) i arwain gwaith atal boddi Llywodraeth Cymru. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol yn 2024-25 i WSW, gan wella'n gallu i gyflawni saith nod allweddol y Strategaeth.

## Cyd-destun sy'n newid

Rhwng 2020 a 2022, cafodd y flaenoriaeth annisgwyl a roddwyd i frwydro yn erbyn Covid-19 effaith arwyddocaol ar lywodraethau lleol a chenedlaethol, yn ogystal ag aelodau WSW. Oherwydd y newidiadau a ddaeth yn sgil y pandemig cododd heriau newydd ac annisgwyl a bu'n rhaid newid y cyfeiriad a'r ffocws ar rai o nodau allweddol y Strategaeth.

Roedd addysg diogelwch dŵr yn wynebu heriau sylweddol am fod ysgolion yn gweithredu o bell, ac yn sgil cau pyllau nofio cafwyd gostyngiad sydyn yn nifer y bobl ifanc oedd yn cael gwersi nofio ac yn cyrraedd y safonau disgwyliedig. Cafodd datblygiad cynlluniau diogelwch dŵr, sy'n gofyn am gydweithrediad awdurdodau lleol a'r gwasanaethau brys, ei rwystro hefyd, gan fod yr endidau hyn yn ymwneud yn helaeth â mynd i'r afael â'r pandemig a lliniaru ei effeithiau.

Mae ôl-effeithiau pandemig Covid-19 ar ddiogelwch dŵr yn ymestyn y tu hwnt i effeithiau cychwynnol y feirws a'r cyfnodau clo. Gan fod awyrennau wedi'u hatal am gyfnodau arwyddocaol, gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl oedd yn aros yn y Deyrnas Unedig ar gyfer eu gwyliau. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer yr unigolion oedd yn ymweld â mannau dŵr agored yng Nghymru ac yn rhoi cynnig ar weithgareddau gwahanol yn gysylltiedig â dŵr am y tro cyntaf.

# Cynnydd


## Cyfanswm y marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr

Yn ôl WAID, mae cyfanswm y marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr wedi cynyddu o'i gymharu â llinell sylfaen gyfartalog gychwynnol y Strategaeth, sef 45 (2016-2018). Mae'r data am y tair blynedd diweddaraf (2021-2023) yn dangos 51 o farwolaethau yn gysylltiedig â dŵr ar gyfartaledd.

Mae nifer y marwolaethau drwy foddi'n ddamweiniol[1] wedi cynyddu o'i gymharu â'r llinell sylfaen gychwynnol, tra bo nifer yr hunanladdiadau a amheuir wedi aros yr un fath.

Gan ddefnyddio cyfartaledd tair-blynedd wedi'i ddiweddaru (2021-2023), mae cyfanswm y marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr wedi cynyddu 13 y cant tra bo marwolaethau drwy foddi'n ddamweiniol wedi cynyddu 4 y cant.


Mae nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr ac sydd heb eu cofnodi fel 'amheuir damwain', 'amheuir hunanladdiad' neu ' amheuir trosedd' wedi cynyddu hefyd o'u cymharu â'r llinell sylfaen gychwynnol (gweler Ffigur 1).




**Ffigur 1: Llinell sylfaen y Strategaeth (2013-2015) o'i chymharu â Chyfartaledd yr Adolygiad Ganol Strategaeth (2021-2023)**


1 Yn y ddogfen yma, mae 'damweiniol' yn cyfeirio at achosion damweiniol a naturiol fel ei gilydd.

Mae Ffigur 2 yn dangos tuedd tymor hirach o'r naill flwyddyn i'r llall yng nghyfanswm y marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr, fesul canlyniad.




**Ffigur 2: Marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr yn ôl y canlyniad a'r flwyddyn, 2016-2023**

Fel y gwelir yn Ffigur 3, mae'r gyfradd marwolaethau damweiniol fesul 100,000 o'r boblogaeth wedi cynyddu ers llinell sylfaen wreiddiol y Strategaeth ac mae'n dal yn uwch na chyfradd y Deyrnas Unedig gyfan. Mae'n hollbwysig sylwi bod cyfradd y Deyrnas Unedig wedi gostwng dros y cyfnod, tra bo Cymru wedi gweld cynnydd.




**Ffigur 3: Cyfraddau marwolaethau damweiniol sy'n gysylltiedig â dŵr yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, llinell sylfaen y Strategaeth o'i chymharu â Chyfartaledd yr Adolygiad Ganol Strategaeth (2021-2023)**[2]

2 Mae cyfradd marwolaethau damweiniol Cymru wedi'i seilio ar boblogaeth Cymru a ffigyrau WAID, a allai gynnwys pobl sy'n ymweld â Chymru o wledydd eraill. Gweler atodiad 2 i gael rhagor o nodiadau.

## Demograffeg sy'n newid

Cafwyd newidiadau cynnil mewn rhai elfennau o ddemograffeg marwolaethau damweiniol sy'n gysylltiedig â dŵr yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf.

Yn gyson â llinell sylfaen y Strategaeth, dynion sy'n dal i gyfrif am y mwyafrif o farwolaethau damweiniol – er bod hyn wedi gostwng ychydig, o 89 y cant i 76 y cant.

Mae data'r Adolygiad Ganol Strategaeth yn dangos bod marwolaethau damweiniol bellach ar eu huchaf yn y grŵp oedran gwrywod 20-29; yn achos menywod, does dim un grŵp oedran penodol yn amlycach na'i gilydd.

Mae'r data hefyd yn dangos bod marwolaethau damweiniol yn digwydd mewn lleoliadau arfordirol a mewndirol yn yr un gyfran bron (49 y cant mewndirol o'i gymharu â 51 y cant arfordirol). Mae hyn yn newid o'r llinell sylfaen, gyda 43 y cant yn digwydd yn fewndirol yn erbyn 57 y cant ar yr arfordir.

Gweithgareddau hamdden ar y dŵr neu ger y dŵr yw hanner yr holl farwolaethau damweiniol sy'n gysylltiedig â dŵr (50 y cant). Er hynny, mae 43 y cant o'r marwolaethau damweiniol yn deillio o weithgareddau bob dydd lle nad oedd gan yr unigolyn unrhyw fwriad i fynd i'r dŵr e.e. cerdded, beicio neu redeg ger dŵr.


Mae'r wybodaeth yma wedi'i chrynhoi yn Nhabl 1, o'i chymharu â'r llinell sylfaen wreiddiol yn y Strategaeth. Mae marwolaethau damweiniol sy'n gysylltiedig â dŵr yn cael eu mapio yn ôl eu lleoliad yn Ffigur 4.

| | Llinell sylfaen y Strategaeth (2016-2018) | Data tair blynedd (2021-2023) |
|---|---|---|
| **Dosbarthiad rhyw y marwolaethau** | 89 y cant gwrywaidd;<br>11 y cant benywaidd | 76 y cant gwrywaidd;<br>24 y cant benywaidd |
| **Y grŵp oedran sydd â'r gyfradd marwolaethau uchaf** | Gwrywod 40-49 oed;<br>Menywod ar draws yr ystod | Dynion 20-29 oed;<br>Merched ar draws yr ystod |
| **Lleoliad y marwolaethau** | 43 y cant mewndirol;<br>57 y cant arfordirol | 51 y cant arfordirol;<br>49 y cant mewndirol |
| **Gweithgaredd[3]** | 32 y cant hamdden; doedd 58 y cant ddim yn bwriadu bod yn y dŵr;[4] 8 y cant masnachol; 2 y cant domestig | 50 y cant hamdden; doedd 43 y cant ddim yn bwriadu bod yn y dŵr[4]; 4 y cant masnachol; 3 y cant yn eithriadol |

**Tabl 1: Demograffeg sylfaenol y Strategaeth (2016-2018) o'i chymharu â demograffeg gyfartalog yr Adolygiad Ganol Strategaeth (2021-2023)**

3 Gweler Atodiad 2 i gael rhagor o wybodaeth am y dosbarthiadau.

4 Mae 'Ddim yn bwriadu bod yn y dŵr' yn cyfeirio at weithgareddau 'bob dydd', e.e. rhedeg, cerdded neu feicio wrth y dŵr.





**Ffigur 4: Map o'r marwolaethau damweiniol dros y tair blynedd (2021-2023)**

## Pobl Ifanc

Dros y tair blynedd (2021-2023), cafwyd 20 o farwolaethau damweiniol yn gysylltiedig â dŵr ymysg pobl o dan 25 oed. Mae hyn yn gynnydd ers cyfnod y data sylfaenol (2016-2018), pan gafwyd 17 o farwolaethau damweiniol yn gysylltiedig â dŵr ymysg pobl o dan 25 oed.

Dyma'r dadansoddiad o'r marwolaethau ar gyfer pobl ifanc dan 25 oed:



# Cynnydd tuag at y nodau targed

**Allwedd**

- ✔ Y gweithgaredd wedi'i gwblhau
- ⬆ Cryn gynnydd wedi'i wneud
- ➡ Peth cynnydd wedi'i wneud
- ◷ Gweithred arfaethedig sydd i'w chwblhau cyn diwedd y strategaeth yma
- ⟳ Newid cyfeiriad/heb fod yn weithred arfaethedig mwyach

## Gwella data a gwybodaeth digwyddiadau dŵr yng Nghymru

Mae deall yr amgylchiadau a arweiniodd at foddi yn helpu i atal bodddiadau eraill. Mae WSW wedi ceisio gwella'r data a'r wybodaeth am ddigwyddiadau dŵr yng Nghymru drwy hybu fersiwn Cymru a fersiwn y Deyrnas Unedig o WAID, sy'n dod â data ar farwolaethau gan wahanol sefydliadau at ei gilydd.

| | | |
|---|---|---|
| Hyrwyddo adroddiadau data WAID y Deyrnas Unedig a Chymru gyda sefydliadau partner ac awdurdodau lleol. | ✔ | Mae adroddiadau blynyddol WAID ar gyfer y Deyrnas Unedig a Chymru wedi'u rhyddhau. Yn ychwanegol, cyhoeddwyd adroddiadau pwrpasol fel adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2023.[iii] |
| Cefnogi rhannu data achubiadau dŵr mewndirol y Gwasanaeth Tan ac Achub gyda WAID | ➡ | Mae WSW a'r Gwasanaeth Tan ac Achub wedi galluogi'r broses yma; mae'r cynnydd a'r camau nesaf yn dibynnu ar y Fforwm Diogelwch Dŵr Cenedlaethol (NWSF). |
| Archwilio cyfleoedd i adnabod ardaloedd o risg uchel a rhannu gwybodaeth leol o ddigwyddiadau i sicrhau y dysgir gwersi. | ➡ | Mae mannau lle ceir risg uchel a'r gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â gweithgareddau penodol, fel padlfyrddio ar eich traed (SUP), wedi'u rhannu. |

## Hyrwyddo a datblygu dysgu nofio ac addysg diogelwch dŵr

Nid pawb yng Nghymru sy'n gwybod sut i nofio na sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel mewn dŵr ac o gwmpas dŵr. Mae WSW yn hybu pwysigrwydd codi'r sgiliau bywyd allweddol hyn trwy raglenni i'r blynyddoedd cynnar, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd ac ar draws ein cymunedau amrywiol.

Yn ogystal â dysgu nofio, mae gwersi diogelwch dŵr yn yr ystafell ddosbarth yn rhoi gwybodaeth i'r dysgwyr am achub bywydau. Hoffai WSW weld Cymru lle mae pawb yn cael cyfle i ddysgu nofio a mynd i wersi diogelwch dŵr yn yr ystafell ddosbarth. Gan hynny, mae WSW, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, wrthi'n creu adnoddau dosbarth sy'n briodol i'r oedran ac i'r cyfnod, i'r ysgolion eu defnyddio.

| | | |
|---|---|---|
| Sefydlu is-grŵp addysg. | ✔ | Cafodd is-grŵp addysg ei sefydlu ac mae'n cael ei arwain gan Nofio Cymru. |
| Pob plentyn i gyfranogi mewn gweithgareddau addysgu diogelwch dŵr. | ⬆ | Mae pwysigrwydd nofio yn yr ysgol a hyrwyddo nofio yn yr ysgol wedi hen ennill eu plwyf ond mae angen cyllid ac adnoddau parhaus i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn lefelau mynediad a chyrhaeddiad.<br><br>Mae cam arall wedi'i sefydlu yn y maes yma – yr angen i sicrhau addysg gyson yn yr ystafell ddosbarth mewn ysgolion. |
| Cyd-lynu'n gydweithredol hyrwyddiad cyfleoedd cymunedau amrywiol yng Nghymru i gael y cyfle i ddysgu nofio a derbyn addysg diogelwch dŵr | ⬆ | Mae Cymdeithas Nofio Pobl Ddu (BSA), sy'n aelod o WSW, wedi bod yn helpu i ddosbarthu gwybodaeth am ddiogelwch dŵr ar gyfer cymunedau amrywiol yng Nghymru. Mae'r BSA hefyd yn helpu cymunedau ethnig amrywiol i gael mynediad at raglenni ymgynefino â dŵr a rhaglenni diogelwch dŵr sy'n eu helpu i bontio i raglenni 'dysgu nofio', yn ogystal â gweithgareddau dyfrol eraill.<br><br>Lansiodd Nofio Cymru y fframwaith Cynnwys, sy'n ceisio dileu rhwystrau a hybu amrywiaeth mewn chwaraeon dŵr.[iv] |

ASTUDIAETH ACHOS

## Swim Safe yng Nghymru

Mae'r fenter Swim Safe yn darparu gwersi nofio ymarferol am ddim i blant 7 i 14 oed mewn lleoliadau dŵr agored. Gan ddefnyddio hyfforddiant ar y tir ac yn y dŵr, mae'r cyfranogwyr yn dysgu sut i gadw'n ddiogel yn y dŵr.

Ers 2019, mae miloedd o blant ledled Cymru wedi elwa o'r rhaglen yma. Mae sesiynau'n cael eu cynnal yn y canlynol:

- Sir Ddinbych
- Conwy
- Gwynedd
- Sir Benfro
- Pen-y-bont
- Ynys Môn
- Caerdydd

## Hyrwyddo a chefnogi datblygiad cynlluniau diogelwch dŵr

Mae WSW yn gweithio i helpu i ddatblygu fforymau a phartneriaethau diogelwch dŵr ledled Cymru i ddeall risgiau dŵr yn well o fewn cymunedau lleol a datblygu cynlluniau i liniaru'r risgiau hynny.

| | | |
|---|---|---|
| Cefnogi Awdurdodau Unedol yng Nghymru i ddatblygu Cynllun Diogelwch Dŵr. | ⬆ | Mae ymchwil yn cael ei gwneud ar ymgorffori dirnadaeth sylfaenol yn y ddarpariaeth polisi. Mae mannau â risg uchel hefyd wedi'u nodi trwy ddefnyddio matrics risgiau. |
| Cefnogi datblygiad fforymau diogelwch dŵr a grwpiau cymunedol lleol. | ➡ | Mae rhai grwpiau eisoes wedi hen ennill eu plwyf yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae strwythur ffurfiol i fforymau/grwpiau diogelwch dŵr yn cael ei ymchwilio gan Grŵp Llywio WSW. Rhagwelir y bydd y mannau sydd â'r risg uchaf yn cael eu blaenoriaethu i'w datblygu. |

ASTUDIAETH ACHOS

## Rheoli diogelwch dŵr yng Nghymru

Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau (RoSPA) wrthi'n edrych ar gwestiwn cyfrifoldeb dros reoli diogelwch dŵr. Mae deall pwy sy'n gyfrifol, a'u dulliau nhw o ymdrin â diogelwch dŵr, yn caniatáu i fesurau atal boddi gael eu targedu'n effeithiol. Yn 2023, cyhoeddodd RoSPA ei hastudiaeth 10 mlynedd ar gyfer yr Alban, *Local authority approaches to managing water safety: A 10-year comparative analysis*.[v] Yn anffodus, arweiniodd ymgais yn 2021 i gynnwys Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon mewn astudiaeth debyg at set ddata anghyflawn, oedd yn cyfyngu canfyddiadau'r adroddiad.[vi]

Erbyn hyn, mae RoSPA yn gwneud ymchwil ar sut mae'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn ymdrin â diogelwch dŵr. Gofynnwyd i bob awdurdod lleol lenwi arolwg yn amlinellu eu dull o ymdrin â diogelwch dŵr ac a oes ganddyn nhw gynllun diogelwch dŵr ar waith ai peidio. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn helpu i fwydo fersiwn nesaf y Strategaeth yma a nodi ble y gall cymorth gael ei roi er mwyn datblygu cynlluniau diogelwch dŵr a'u rhoi ar waith.

## Partneriaeth Diogelwch Dŵr Sir Benfro

Yn 2019, sefydlwyd Fforwm Diogelwch Dŵr Sir Benfro i gydlynu ymdrechion y rhai sy'n ymwneud ag atal boddi yn y sir. Mae'r fforwm yn cyfarfod bob chwarter ac yn rhannu data a gwybodaeth leol i nodi tueddiadau ac i roi blaenoriaeth i grwpiau sy'n wynebu risg.

Mae'r gweithgareddau penodol yn cynnwys is-grwpiau sy'n cynnal digwyddiadau ac yn hybu diogelwch ar gyfer gweithgareddau dŵr agored, jetsgio a phadlfyrddio ar eich traed, gwella arwyddion ac addysg yn y Morlyn Glas, a threfnu digwyddiadau addysg amlasiantaeth i fyfyrwyr lleol ynghylch neidio oddi ar y clogwyni. Mae digwyddiad blynyddol dan arweiniad aelodau Partneriaeth Diogelwch Dŵr Sir Benfro yn hyfforddi hyfforddwyr gweithgareddau awyr agored ar eu rôl mewn argyfyngau a sgwrsio am ddiogelwch dŵr gyda'r cyhoedd.  Ers ei sefydlu, mae Partneriaeth Diogelwch Dŵr Sir Benfro wedi sicrhau bod ymdrechion i atal boddi yn fwy cydlynol, gweladwy ac effeithiol, gan rannu adnoddau a'r arferion gorau.

## Hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o risgiau sy'n ymwneud â dŵr a sicrhau bod negeseuon cyson yn cyrraedd y bobl gywir ar yr adeg gywir

Mae WSW yn cydnabod y gwaith gwerthfawr sy'n cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth o risgiau sy'n gysylltiedig â dŵr ac atal boddi. Bydd WSW yn parhau i gefnogi'r ymdrechion hyn ac yn ceisio cynyddu'r cydweithio a'r cysondeb.

| | | |
|---|---|---|
| Sefydlu is-grŵp cyfryngau a chyfathrebiadau. | ↑ | Mae grŵp cyfryngau a chyfathrebu wedi'i sefydlu. Mae cynnydd wedi'i wneud hefyd gyda datganiadau blynyddol i'r wasg. Mae cynllun cyfathrebu llawn a phecyn cymorth i WSW ar y gweill i'w defnyddio yn y dyfodol. |
| Codi ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd Diogelwch Dŵr ar draws Cymru. | ↑ | Mae WSW wedi hybu'r ymgyrch Parchwch y Dŵr: Ffoniwch, Dywedwch, Taflwch yn effeithiol.[vii] Mae cynllun cyfathrebu llawn a phecyn cymorth i WSW yn cael eu datblygu ar gyfer aelodau WSW. |

ASTUDIAETH ACHOS

### Parchwch y dŵr

Mae Parchwch y Dŵr yn ymagwedd partneriaeth at ymgyrchoedd diogelwch dŵr sy'n wynebu'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig. Mae'r brand yn perthyn yn hanesyddol i'r RNLI, ac mae wedi cael ei roi i'r NWSF.. Mae'n cael ei gefnogi gan rwydwaith o fwy na 50 o sefydliadau (gan gynnwys WSW). Mae'r ymgyrch yn canolbwyntio ar wrthsefyll eich greddf i geisio achub rhywun sydd mewn trafferth ac yn hytrach ffonio 999. Mae'r negeseuon allweddol yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r dull 'Ffoniwch, Dywedwch, Taflwch'. Os bydd rhywun yn dyst i argyfwng dŵr, dylen nhw ffonio 999, dweud wrth y person yn y dŵr am arnofio ar ei gefn, ac wedyn taflu rhywbeth sy'n arnofio atyn nhw. Mae asedau'r ymgyrch wedi'u cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg, gan alluogi'r negeseuon i gael eu rhannu ledled Cymru gyfan gan sefydliadau cyhoeddus a phreifat.



## Hyrwyddo cyfranogaeth ddiogel mewn gweithgareddau dŵr ar draws Cymru

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys nod o sicrhau Cymru iachach. Mae gweithgareddau dŵr yn ffordd wych o gynnal ffordd iach o fyw. Mae Cymru'n gyrchfan boblogaidd i ymwelwyr ac mae ganddi enw da yn fyd-eang am weithgareddau awyr agored ac antur, gyda'n dyfroedd arfordirol a mewndirol yn atyniad allweddol.

| | | |
|---|---|---|
| Annog gweithgareddau dŵr diogel yng Nghymru fel modd o gynnal ffordd o fyw iach a mwynhau ein hamgylchedd. | ↑ | Mae WSW wedi cefnogi gwaith yr aelodau wrth hybu gweithgareddau dŵr diogel sy'n hybu ffordd iach o fyw. Mae hyn yn cynnwys cefnogi Nofio Cymru i achredu 15 safle gydag achrediad Ardystiad Cyfleuster Dyfrol Diogel (S.A.F.E) Cymru i gyfleusterau awyr agored sy'n bartneriaid.<br><br>Mae'r gefnogaeth arall yn cynnwys hybu sesiynau nofio mewn cronfeydd dŵr dan oruchwyliaeth Dŵr Cymru a chefnogi gwelliannau mewn diogelwch padlfyrddio ar eich traed a argymhellwyd gan adroddiad y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Morol ar drychineb padlfyrddio Hwlffordd yn 2021. |

## Cyfrannu at ostyngiad mewn hunanladdiadau sy'n gysylltiedig â dŵr

Mae hunanladdiad sy'n gysylltiedig â dŵr yn cynyddu yng Nghymru. Mae WSW yn cydnabod yr angen i ddeall ffactorau dylanwadu yn well a bydd yn gweithio ar atal, yn unol â strategaeth Llywodraeth Cymru ar atal hunanladdiad a hunan-niweidio.

| | | |
|---|---|---|
| Sefydlu is-grŵp atal hunanladdiad. | ⟳ | Mae cysylltiad wedi'i sefydlu â Grŵp Cynghori Cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar atal hunanladdiad a hunan-niweidio. Felly does dim angen is-grŵp penodol o WSW. |
| Cefnogi'r ddealltwriaeth fod modd atal hunanladdiad | ◷ | Yn dibynnu ar gwblhau'r uchod. |

## Gweithio a theuluoedd a effeithiwyd gan ddigwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr

Dim ond y rhai sydd wedi mynd trwy'r profiad hwnnw sydd wir yn gallu deall effaith colli aelod o'r teulu. Mae llawer o deuluoedd sydd wedi cael profedigaeth ar flaen y gad o ran atal boddi.

| | | |
|---|---|---|
| Adnabod effaith ddynol boddi. | ↑ | Mae pum cyfarfod o'r Grŵp Teuluoedd wedi'u cynnal. Mae nifer o ddeisebau, dadleuon seneddol a phrosiectau wedi'u cynnal gan deuluoedd yr effeithiwyd arnynt yng Nghymru. |

ASTUDIAETH ACHOS

## Forever 11

Sefydlwyd yr elusen Forever 11 er cof am Zac Thompson, a gollodd ei fywyd yn drasig ym mis Gorffennaf 2022. Dechreuodd 'Forever 11' fel dywediad a ddefnyddid gan ffrindiau ysgol Zac, ei gydchwaraewyr rygbi a thrigolion y gymuned i fynegi eu cariad ato a'u tor calon yn sgil ei farwolaeth

Yn dilyn digwyddiad coffa llwyddiannus i godi arian, a gododd £10,000 i'r gwasanaethau brys, mae Forever 11 wedi tyfu'n elusen sy'n dal i godi arian ac ymgyrchu dros ddiogelwch dŵr.

Mae'r elusen yn codi arian i sicrhau bod plant ifanc yn gallu cael mynediad at hyfforddiant diogelwch dŵr rhag ofn y bydd argyfwng. Mae Forever 11 yn trefnu sesiynau diogelwch dŵr am ddim i blant 8 oed a throsodd, gan gynnwys sesiynau i fyfyrwyr hen ysgol Zac. Mae'r elusen hefyd yn codi arian i adnewyddu a thrwsio offer diogelwch dŵr a diffibrilwyr ar gyfer lleoliadau ger y dŵr.

# Galwad i weithredu a'r camau nesaf

Er bod cynnydd wedi'i wneud o ran atal boddi ers lansio'r Strategaeth, mae WSW yn cydnabod bod cynnydd sylweddol i'w wneud o hyd.

Bydd nodau targed sydd wedi'u nodi fel naill ai 'gweithredoedd arfaethedig' neu 'peth cynnydd wedi'i wneud' yn cael y flaenoriaeth dros y ddwy flynedd nesaf i sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus erbyn 2026.

Mae WSW yn dal i haeru bod modd atal pob marwolaeth sy'n gysylltiedig â dŵr, beth bynnag fo'r achos neu'r amgylchiadau. Byddwn yn parhau i weithio tuag at Gymru heb farwolaethau yn gysylltiedig â boddi.

# Atodiadau

## Atodiad 1. Rhestr o'r sefydliadau sy'n aelodau o WSW

AdventureSmart UK

Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau

Atlantic Crest

Cadwch Gymru'n Daclus

Canŵ Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyngor Abertawe

Cymdeithas Achub Bywyd o'r Môr Cymru

Cymdeithas Frenhinol Achub Bywydau

Cymdeithas Genedlaethol y Badau Achub Annibynnol

Cymdeithas Mwynau a Chynhyrchion

Cymdeithas Nofio Pobl Ddu

Diogelwch Dŵr yr Alban

Dŵr Cymru

Fforwm Diogelwch Dŵr Cenedlaethol

Fforwm Gwydnwch Lleol Gogledd Cymru

Grŵp Cynghori Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Atal Hunanladdiad a Hunan-Niwed

Grŵp Rheolwyr Traethau Cymru Gyfan

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Hafren Trent (Hafren Dyfrdwy)

Heddlu De Cymru

Heddlu Dyfed Powys

Heddlu Gwent

Nofio Cymru

Nofwyr y Bluetits Chill

Outreach Rescue

Samariaid Cymru

Sefydliad Brenhinol Cenedlaethol y Badau Achub

Sefydliad Cenedlaethol Coastwatch

Uned Chwilio Tanddwr a Môr Heddlu'r Gogledd-orllewin

Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau

Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd (Glandŵr Cymru)

## Atodiad 2. Nodiadau ar ddata WAID

- Mae'r data sydd wedi'i ddefnyddio yn dod o fersiwn R1 o WAID. Sylwch fod darparwyr data craidd yn dal i gasglu gwybodaeth wedi'i diweddaru o wahanol ffynonellau, a all gael ei defnyddio i wella'r set ddata, ac a allai arwain at newidiadau yn nata WAID yn y dyfodol.
- Mae data 2021-2023 yn dod i gyfanswm o 76, gyda'r eithriadau canlynol: mae 9 cofnod wedi'u hepgor o oedran/rhyw, mae 6 chofnod wedi'u hepgor o'r data lleoliad cofnod, ac mae 4 cofnod wedi'u hepgor o'r data gweithgareddau.
- Mae data 2021-2023 ar bobl o dan 25 oed yn dod i gyfanswm o 20, gyda'r eithriadau canlynol: mae 4 cofnod wedi'u hepgor o'r data lleoliad ac mae 3 chofnod wedi'u hepgor o'r data gweithgareddau.
- Mae tacsonomïau WAID ar gyfer gweithgareddau yn cynnwys gweithgareddau hamdden (chwaraeon a gweithgareddau dŵr); bob dydd (sydd wedi'i ddosbarthu fel y rhai nad oedden nhw'n bwriadu bod yn y dŵr, e.e. pobl oedd yn cerdded, rhedeg a beicio wrth ymyl dŵr); masnachol; ac eithriadol (e.e. achub person/anifeiliaid).
- Cydnabyddir nad yw'r gyfradd foddi o reidrwydd yn adlewyrchu'r gwir gyfradd foddi yng Nghymru na'i phoblogaeth gyfan. Nid yw data WAID yn ei gyflwr presennol yn ystyried mamwlad yr ymadawedig.
- Mae canlyniadau digwyddiadau angheuol wedi'u seilio ar achosion a amheuir ac achosion wedi'u cadarnhau (e.e. amheuir damwain neu cadarnhawyd damwain).

# Cyfeirnodau


i Y Cenhedloedd Unedig (2021) Penderfyniad a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cyffredinol ar 28 Ebrill 2021, 75/273, Global drowning prevention. Ar gael ar-lein: **digitallibrary.un.org/record/3925005?v=pdf**

ii Pwyllgor Deisebau Senedd Cymru (2022) Cyfraith Mark Allen, Diogelwch dŵr ac atal boddi. Ar gael ar-lein: **senedd.cymru/media/333d0awo/cr-ld15291-w.pdf**

iii Iechyd Cyhoeddus Cymru (2023) Water-related fatalities in children and young people under 25 years of age, Wales, 2013-2022. Ar gael ar-lein: **phw.nhs.wales/services-and-teams/child-death-review/publications/water-related-fatalities-in-children-and-young-people-under-25-years-of-age-wales-2013-2022**

iv Nofio Cymru (2024) Cynnwys. Ar gael ar-lein: **www.swimwales.org/cynnwys**

v RoSPA (2023) Local authority approaches to managing water safety: A 10-year comparative analysis. Ar gael ar-lein: **watersafetyscotland.org.uk/media/frmfv3wm/rospa-local-authority-approaches-to-managing-water-safety-2.pdf**

vi RoSPA (2021) Local authority approaches to managing water safety: England, Wales and Northern Ireland. Ar gael ar-lein: **www.rospa.com/media/documents/water-leisure/Local-Authority-Approaches-to-Managing-Water-Safety.pdf**

vii Parchwch y Dŵr (2024) Ymgyrchoedd ac adnoddau. Ar gael ar-lein: **respectthewater.com/cy/campaigns-resources/**

diogelwch dŵr Cymru

water safety Wales